Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

Adroddiad Ymgysylltu: datblygu Cynllun Llesiant Sir Gâr

Awst 2017

Cynnwys

Crynodeb 2

Yr Amcanion Llesiant a'u Camau Gweithredu 2

Datblygu'r Cynllun Llesiant 5

- Gweithdai Grŵp Thematig 6
- Digwyddiadau Cyfnewid Syniadau 6
- Negeseuon Allweddol a'r Trafodaethau yn y Gweithdai 11
- Gweithdy i Gynghorau Tref a Chymuned 11
- Gweithdai i Grwpiau Buddiannau Arbennig 12
  - Gweithdai Plant a Phobl Ifanc 12
  - Grwpiau Eraill 13
- Arolwg Ar-lein 14
- Dadansoddiad o'r Gwaith Pennu Camau Gweithredu 15
  - Atodiad 1 – Sesiynau Grŵp Thematig 17
  - Atodiad 2 – Amserlen y Gweithdai 20
  - Atodiad 3 – Y Gweithdai 21
  - Atodiad 4 – Gweithdy Cynghorau Tref a Chymuned 33
  - Atodiad 5 – Gweithdy Plant a Phobl Ifanc 35
  - Atodiad 6 – Grwpiau Eraill 37
  - Atodiad 7 – Arolwg Ar-lein 40

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r casgliadau o'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2017 i ddatblygu camau gweithredu er mwyn gwireddu pedwar amcan llesiant BGC Sir Gâr. Deilliodd y pedwar amcan llesiant o ganlyniadau'r gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017 ar ôl dadansoddi'r Asesiad o Lesiant Lleol.

Datblygwyd camau gweithredu tymor byr, canolig a hir sy'n adlewyrchu natur a gallu penodol ac unigryw'r BGC, h.y. gweithredu drwy gydweithio. Dyma eiriad terfynol y camau gweithredu a gaiff eu cynnwys yn nrafft cyntaf Cynllun Llesiant Sir Gâr:

Yr Amcanion Llesiant a'u Camau Gweithredu

Arferion Iach

Bod gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd

Tymor Byr

1. **Cyd-drefnu Ymgyrchoedd**
   Datblygu ffordd o alluogi ymgyrchoedd gwybodaeth wedi'u targedu i gael eu lledaenu'n gyson ac yn drylwyr ledled y sir gan holl bartneriaid a sefydliadau'r BGC. Byddwn yn datblygu ffyrdd arloesol o ymgysylltu'n well â phawb, pwy bynnag ydych ac o ble bynnag rydych chi'n dod.
2. **Asesiad Risg**
   Cynnal Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid Hinsawdd i Sir Gâr er mwyn datblygu camau gweithredu clir a phendant y gall unigolion, cymunedau a sefydliadau eu cymryd.

Tymor Canolig

3. **Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd**
   Caiff presgripsiynu cymdeithasol ei gydnabod fel ffordd i weithwyr proffesiynol gyfeirio pobl at wasanaethau cymorth cymunedol, lleol, nad ydynt yn glinigol, yn lle rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn neu ymyrraeth gan wasanaeth. Byddwn yn adeiladu ar ganfyddiadau prosiect peilot yn Llanelli, yn ogystal ag ymarfer a thystiolaeth o fannau eraill, i sefydlu mynediad at y cyfleoedd hyn ar draws y sir.

4. **Cysylltiad â Natur**
   Gyda chysylltiadau cryf â'r gweithredu ynghylch Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd, bydd y BGC yn rhestru mannau naturiol newydd, a'r rhai presennol, y gellir eu defnyddio i sicrhau mwy o gysylltiad â natur. Bydd y BGC yn hyrwyddo'r mannau hyn ac yn addysgu pobl fel eu bod yn deall pwysigrwydd caru natur.

Tymor Hir

5. **Sut byd pethau'n edrych yn y Tymor Hir/Beth fydd cynnydd yn ei olygu**
   Bod dinasyddion Sir Gâr yn ymroi'n ddiwyd i ofalu am eu hiechyd eu hunain a, thrwy fwy o gysylltiad â natur, bydd ganddynt well llesiant, lefelau straen is a bydd eu hagweddau a'u hymddygiad yn fwy cynaliadwy'n amgylcheddol.

Ymyrraeth Gynnar
Bod pobl yn cael yr help priodol ar yr amser iawn; yn ôl y gofyn

Tymor Byr

6. **Codi Ymwybyddiaeth**
   Bydd y BGC yn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i alluogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i gymryd mesurau ataliol cynnar er mwyn eu llesiant eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu un pwynt cyswllt er mwyn cael gafael ar wybodaeth, yn ogystal â datblygu rhaglen hyfforddi gyffredin i staff sy'n gweithio yn sefydliadau'r BGC, ar sail y drefn Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif.

Tymor Canolig

7. **Rhannu Gwybodaeth**
   Gan adeiladau ar y drefn Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, sefydlu mecanwaith i sefydliadau'r BGC gydlynu a rhannu gwybodaeth allweddol er mwyn cynyddu capasiti a gallu partneriaid gwasanaeth cyhoeddus i helpu unigolion i gymryd camau ataliol cynnar er mwyn eu lles eu hunain.

Tymor Hir

8. Beth fydd cynnydd yn ei olygu

Bydd mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau yn sicrhau bod pobl yn cael yr help iawn ar yr adeg iawn, yn ôl y gofyn. Gallai hyn olygu ymatebion arloesol, yn lleol ac ar draws y sir, megis gwasanaethau teithiol neu gydleoli gwasanaethau.

Cysylltiadau Cadarn

Pobl, llefydd a sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n gadarn, sy'n gallu addasu i newid

Tymor Byr

9. Asedau Cymunedol Arloesol

Bydd y BGC yn gweithio'n agos gyda chymunedau ac unigolion i'w helpu i ddatblygu sgiliau a galluogi cymunedau i weithredu. Caiff adnodd ei sefydlu i gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ddatblygu prosiectau wedi'u seilio yn y gymuned; datblygu cyfleoedd gwirfoddoli; a gwneud gwell defnydd o asedau'r gymuned, a'r sector cyhoeddus (corfforol a rhwydweithiau cymdeithasol) er budd cymunedau ac i gynyddu gwytnwch cymunedau i newid hinsawdd.

Tymor Canolig

10. Cyflenwi Gwasanaethau mewn Ffordd Arloesol

Drwy ddealltwriaeth a deialog go-iawn, sicrhau cyd-gynhyrchu a chydweithredu rhwng cymunedau, tirfeddianwyr a sefydliadau i wneud yn fawr o'r capasiti/asedau, rhwydweithiau, a'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu cynnal.

Tymor Hir

11. Sut bydd pethau'n edrych yn y tymor hir

Byddwn yn dathlu Sir Gâr, gyda'i holl amrywiaeth, drwy hyrwyddo agosatrwydd, cydlyniad a goddefgarwch.

Pobl a Llefydd Llewyrchus

Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a llefydd yn rhannau trefol a gwledig ein sir

Tymor Byr

12. Addysg a Chyflogaeth

Deall yr anghenion cyflogaeth, y disgwyliadau a'r tueddiadau yn Sir Gâr i sicrhau bod y cwricwlwm addysg, cymorth arall a hyfforddiant yn cyd-fynd yn well i alluogi unigolion i ddatblygu sgiliau bywyd. Yn rhan o hyn bydd partneriaid y BGC yn datblygu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, prentisiaethau, hyfforddiant llwybr carlam etc.

13. Gweithdrefnau Caffael

Bydd y BGC yn ceisio cyfleoedd i ailstrwythuro protocolau a gofynion caffael y sector cyhoeddus er mwyn cynnal a chynyddu mentrau lleol posibl.

Tymor Canolig

14. Seilwaith

Bydd y BGC yn gweithio gyda chymunedau i arloesi a chwilio am fodelau a dulliau newydd i wella seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol (h.y. cysylltedd band eang a ffôn symudol) Sir Gâr. Bydd y BGC yn ceisio darparu system drafnidiaeth gynaliadwy, gwbl integredig, sy'n diwallu anghenion ei bobl a'i gymunedau.

Tymor Hir

15. Beth fydd cynnydd yn ei olygu

Bydd pobl Sir Gâr yn llewyrchus yn economaidd ac yn ffynnu, ble bynnag yn y sir y maen nhw'n byw.

Datblygu'r Cynllun Llesiant

Roedd sawl agwedd i'r cyfnod ymgysylltu o ran pennu camau gweithredu. Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau pob un:

- Gweithdai rhagarweiniol gyda thri Grŵp Thematig
- Tri gweithdy mawr i staff rheng flaen, rhanddeiliaid, cynghorwyr sir ac aelodau o'r cyhoedd a gynhaliwyd mewn tri man ar draws Sir Gâr

- Cynhaliwyd gweithdy arbennig i gynghorwyr yn cynrychioli'r saith Cyngor Tref a Chymuned yn y sir sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Darparwyd gweithdai byrrach mewn nifer o fannau i grwpiau o blant a phobl ifanc a grwpiau eraill sydd â buddiannau arbennig
- I bawb oedd yn methu dod i'r gweithdai, roedd modd cyfrannu syniadau a chamau gweithredu drwy arolwg ar-lein.

Cafodd y wybodaeth a'r syniadau o'r holl ddigwyddiadau eu dadansoddi gan Grŵp Cyflenwi Gweithredol y BGC (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob elfen o'r BGC). Y camau gweithredu a ddatblygwyd yw sylfaen y Cynllun Llesiant Drafft. Mae'r cynllun hwn wedyn yn mynd drwy broses ymgynghori a chraffu drylwyr i sicrhau ei fod yn ddilys a bod dichon ei gyflawni.

Gweithdai Grŵp Thematig

Cyn y prif gyfnod ymgysylltu, cynhaliwyd gweithdai gyda'r tri grŵp thematig sy'n adrodd i'r BGC ac yn gweithredu agenda'r BGC: Teuluoedd a Chymunedau Iach; Cymunedau Teg a Diogel; a Chymunedau Llewyrchus a Chydnerth.

Diben y gweithdai hyn oedd profi'r gweithgareddau a gâi eu defnyddio yn ystod y cyfnod ymgysylltu.

Yn y sesiynau grŵp thematig hyn, ystyriodd pob grŵp ddau o'r amcanion; y ddau mwyaf perthnasol i'r grŵp thematig hwnnw.

- Teuluoedd a Chymunedau Iach: Arferion Iach; ac Ymyrraeth Gynnar.
- Cymunedau Teg a Diogel: Ymyrraeth Gynnar; a Chysylltiadau Cadarn.
- Cymunedau Llewyrchus a Chydnerth: Cysylltiadau Cadarn; a Phobl a Llefydd Llewyrchus.

Er bod y sesiynau hyn yn feddylgar a chreadigol, canolbwyntiai llawer o'r awgrymiadau ar wasanaethau presennol neu ddarpariaeth gwasanaethau unigol yn hytrach na'u bod yn gydweithredol, yn berthnasol ac yn ddichonadwy i'r BGC. Dylanwadodd hyn ar y pwyslais ar gydweithredu yn y Digwyddiadau Cyfnewid Syniadau; daethpwyd â staff rheng flaen o bob rhan o wasanaethau'r BGC ynghyd, gyda rhanddeiliaid eraill, cynghorwyr a'r cyhoedd, i gydweithio i gydgynhyrchu syniadau gweithredu.

I gael darlun llawn o'r awgrymiadau a gynhyrchwyd gan weithdai'r grwpiau thematig, ewch i Atodiad 1.

Digwyddiadau Cyfnewid Syniadau

Cynhaliwyd cyfres o dri gweithdy tair awr ym mis Gorffennaf 2017 (y 5ed yn Llanelli, y 12fed yn Rhydaman a'r 19eg yng Nghaerfyrddin). Roedd y

digwyddiadau'n agored i staff rheng flaen y BGC, rhanddeiliaid eraill, cynghorwyr lleol ac aelodau'r cyhoedd ac fe'u hysbysebwyd yn eang drwy rwydweithiau'r BGC. I gyd, cymerodd 131 o unigolion ran – 43 yn Llanelli, 35 yn Rhydaman a 53 yng Nghaerfyrddin.

Diben y gweithdai oedd gofyn i'r rhai oedd yn cymryd rhan ddatblygu camau gweithredu a fyddai'n hyrwyddo'r pedwar amcan llesiant a nodwyd o'r broses asesu.

Gwahoddai'r gweithdai y cyfranogwyr i ddewis amcan neilltuol i gychwyn, ar sail eu harbenigedd a'u profiad proffesiynol a phersonol. Fodd bynnag, ym mhrif ran y gweithdy roedd y cyfranogwyr i gyd yn symud o un amcan i'r nesaf; gan fwydo syniadau, ymhelaethu a gwella, a nodi'r hyn y bydden nhw'n ei ffafrio. Ar ôl ymarferiad dychmygu, rhoddwyd i'r cyfranogwyr y dasg o osod camau gweithredu tymor byr, canolig a hir o dan yr amcanion; roedd rhaid i'r camau hyn fod yn ddichonadwy ac yn berthnasol i'r sgôp ychwanegol a gâi ei darparu drwy gyfuno ymdrechion aelod sefydliadau unigol o dan faner y BGC. Mae amserlen y gweithdy i'w gweld yn Atodiad A.

Ar ddiwedd proses garwsél y gweithdy, roedd y 'grŵp arbenigol' gwreiddiol yn ôl ar ei fwrdd cychwynnol ac aed ati i lunio o leiaf un cam gweithredu fesul ffrâm amser, gan ystyried yr ychwanegiadau a'r sylwadau a wnaed a'r pleidleisiau a oedd wedi'u bwrw gan y cyfranogwyr eraill.

Yn ôl pob golwg, yr her fwyaf i'r broses oedd cadw'r ffocws ar y gwerth a gâi ei ychwanegu gan y BGC. Roedd staff, a rhanddeiliaid eraill, cynghorwyr a'r cyhoedd fel ei gilydd, yn ei chael yn anodd arloesi drwy gydweithredu. Roedd angen cydbwysedd rhwng symud y tu hwnt i gyfyngiadau dulliau gweithredu a darpariaeth draddodiadol tra ar yr un pryd yn ceisio cadw at egwyddor unigryw datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio. Roedd yn amlwg hefyd fod integreiddio blaenoriaethau a themâu'n llwyddiannus yn yr amcanion yn arwain at drafodaeth fywiog a oedd yn edrych ar ac yn awgrymu gweithredu integredig.

Yn Atodiad 2 cofnodwyd yr holl gamau gweithredu a awgrymwyd gan bob gweithdy ar gyfer pob amcan, a hynny mewn ffordd ddiduedd. Isod ceir crynodeb o'r camau gweithredu arfaethedig yr argymhellwyd eu symud ymlaen o bob digwyddiad. Yn y sesiwn ddadansoddi ddilynol gyda Grŵp Cyflenwi Gweithredol y BGC, cafodd y rhain eu hystyried ynghyd â'r canfyddiadau o'r dulliau ymgysylltu eraill.

Canolfan Selwyn Samuel, Llanelli	Arferion Iach	Ymyrraeth Gynnar	Cysylltiadau Cadarn	Pobl a Llefydd Llewyrchus
Tymor Byr	Hyrwyddwyr cyfathrebu yn y sector cyhoeddus i gysylltu ar draws adrannau a gydag unigolion	Codi ymwybyddiaeth o'r holl wasanaethau cymorth sydd ar gael (cyhoeddus, 3ydd sector), gwell cyfeirio ymlaen	Gwella'r seilwaith TG i bob ardal yn y Sir – Band Eang i bawb. Cyrff Sector Cyhoeddus yn cynnig wifi am ddim neu mewn canolbwyntiau cymunedol	Buddsoddiad gwledig enfawr mewn band eang – atebion arloesol i gymunedau unigol
Tymor Canolig	Cynllun trafnidiaeth sector cyhoeddus	Rhagor o bresgripsiynu cymdeithasol mewn gwasanaethau eraill ac ymestyn peilot Llanelli Siop 1 stop, un pwynt cyswllt: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o ran gofal cymdeithasol ac iechyd (24 awr)	Gwneud yn fawr o adnoddau cyhoeddus sydd â chapasiti e.e. defnyddio Neuaddau Ysgol y tu allan i oriau	Cyfleoedd dysgu lleol yn diwallu anghenion sgiliau – pob oedran/dysgu parhaus i ymateb i dueddiadau'r dyfodol
Tymor Hir	Cydweithredu ar draws y sector cyhoeddus – gwasanaeth integredig i gleientiaid	Rhagor o wasanaethau eiriolaeth i Wybodaeth, Cyngor a Chymorth gyfeirio ymlaen atynt	Edrych ar ddulliau ataliol gyda phrosiectau tymor hwy	Darparu gwell trafnidiaeth gyhoeddus gymunedol, integredig, lle nad yw trafnidiaeth gyhoeddus brif ffrwd yn gynaliadwy e.e. rhannu ceir yn sefydliadau'r BGC

Clwb Bowls Dinefwr, Rhydaman	Arferion Iach	Ymyrraeth Gynnar	Cysylltiadau Cadarn	Pobl a Llefydd Llewyrchus
Tymor Byr	Y BGC i fapio cynlluniau presennol i weld	Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth	Cyfnerthu'r drefn Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif	Cydleoli: Adeiladau/ canolbwyntiau

	beth sydd ar gael ar hyn o bryd, fel sail i'r Cynllun Llesiant. Mapio adeiladau cymunedol at ddefnydd gwasanaethau cyhoeddus a budd cymunedol. Mapio'r tir sydd ar gael i gynyddu'r defnydd ohono a chryfhau bioamrywiaeth.	iechyd meddwl sydd ar gael, digwyddiadau ar gyfer holl wasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a chyfleoedd hyfforddi	(SWAIL) a chyfeirio ymlaen at asiantaethau digidol. Rhannu hyfforddiant.	cymunedol aml-ddefnydd – cyflenwi gwasanaethau yng nghalon y gymuned. Mapio asedau ar draws y sir a Caffael cydgysylltiedig, ar sail cylchred oes, yn rhoi cadwyni cyflenwi byrrach sy'n annog arloesi lleol 'tendrau busnes lleol' /hyrwyddo buddion cymunedol.
Tymor Canolig	Addysg traws-sefydliadol sector cyhoeddus yn ymwneud â themâu allweddol h.y. yr amgylchedd ac arferion iach, gan ddefnyddio'r trydydd sector/ sector gwirfoddol.	Uwchsgilio cymunedau – i ddarparu cymorth i drigolion e.e. ymwybyddiaeth o ddementia, llysgenhadon cymunedol, eiriolwyr, mwy o wirfoddolwyr	Canolbwyntiau Cymunedol (teithiol o bosibl neu leoliad tu allan/coetir) digidol a chorfforol, un pwynt cyswllt o ran datblygu, dadansoddi bylchau o ran datblygu sgiliau, defnyddio DEWIS/peiriant gwybodaeth a System gyfrifiadur Cysylltiadau Cadarn ac iechyd integredig, gydag ysgogiad BGC (80% o integreiddio ar hyn o bryd ond y prosiect ar stop)	Atebion trafnidiaeth cynaliadwy – cwbl integredig
Tymor Hir	Rhwydwaith trafnidiaeth cwbl integredig (beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cheir) ynghyd â pharcio a theithio neu gymhorthdal rhannu car	Darparu gwasanaethau sy'n cael eu cydleoli mewn adeiladau cymunedol lleol	Symud oddi wrth ddiwylliant gofal iechyd wedi'i seilio ar ystadegau e.e. oddi wrth apwyntiadau 10 munud o'r % o bobl a welwyd at ganlyniadau iechyd sy'n grymuso cleifion	Codi cartrefi effeithlon – 'ôl-osod' fforddiadwy: cartrefi am oes, seilwaith gwyrdd yn ganolog i bob adeilad newydd

Dau gam gweithredu ar gyfer pob cyfnod gan fod dwy set o fyrddau trafod (cyfrwng Cymraeg (C) a Saesneg (S))

Neuadd San Pedr, Caerfyrddin	**Arferion Iach**	**Ymyrraeth Gynnar**	**Cysylltiadau Cadarn**	**Pobl a Llefydd Llewyrchus**
Tymor Byr	Cyd-drefnu ymgyrch iechyd corfforol a meddyliol (S) Darparu hyfforddiant addysg ariannol a sgiliau bywyd (C)	Darparu sgiliau bywyd sylfaenol i blant (S) Mapio asedau o safbwynt gwasanaeth a chyfleusterau. Unwaith y maent yn hysbys, rhannu gwybodaeth am argaeledd yn well (C)	Gwneud i bob cyswllt gyfrif a datblygu un pwynt cyswllt – gwasanaethau i beidio â bod yn amddiffynnol (S) Mynediad i fand eang ar draws y Sir (C)	Cynyddu'r defnydd o neuaddau cymuned i sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol – mapio cyfleusterau a gwasanaethau ac ystyried model cydleoli/canolbwynt cymunedol (S) Deall a dehongli effaith y Fargen Ddinesig yn well – gwell cyfathrebu (C)
Tymor Canolig	Adolygu hygyrchedd gwasanaethau a thrafnidiaeth (S) Ehangu'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn y feddygfa leol (C)	Cefnogi newidiadau ffordd o fwy drwy wella mynediad i'r amgylchedd naturiol (S) Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (C)	Gwell rhwydwaith trafnidiaeth, a hwnnw'n integredig. System archebu ar batrwm Uber (S) Cyflogau teg i weithwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl hŷn (C)	Sgiliau gydol oes a sgiliau gwaith (S) Cyswllt rhwng darparwyr addysg a diwydiant – defnyddio'r Fargen Ddinesig fel cyfle (C)
Tymor Hir	Ffocws ar wasanaethau ataliol (S) Parhau i sicrhau cynllun buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol yn y Sir (C)	Parhau i ariannu sgiliau bywyd (S) Y Gymraeg yn brif iaith Sir Gâr (C)	Ariannu tymor hwy i'r 3ydd sector (S) System drafnidiaeth integredig – ymestyn BwcaBus (C)	System drafnidiaeth gwbl integredig. Pobl hŷn yn ofnus rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (S) Deall anghenion ardaloedd gwledig a chyswllt â'r Gymraeg (C)

Negeseuon Allweddol a'r Trafodaethau yn y Gweithdai

Daeth rhai themâu cryf i'r amlwg yn y tri gweithdy. Ni chafodd y rhain eu cofnodi'n ffurfiol, dim ond yng nghofnodion yr hwyluswyr a'r adborth. Mae'n ddiddorol ystyried y syniadau.

Yn Llanelli, roedd y brif neges yn ymwneud â chyfathrebu a gwybodaeth. Roedd y trafodaethau ynglŷn â'r gwasanaethau ar hyn o bryd, y bylchau a'r disgwyliadau yn nodi'r angen am gyfathrebu mwy agored, gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a darparu ymatebion sy'n rhoi'r unigolyn yn y canol. Roedd yr angen am wybodaeth wrth graidd llawer o'r camau gweithredu a awgrymwyd; boed hynny'n weithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth neu'n gynyddu gwybodaeth a sgiliau er mwyn gwella lles personol.

Yn Rhydaman, roedd cydweithio, integreiddio a chydleoli yn themâu cryf iawn yn y trafodaethau wrth fyrddau pob un o'r amcanion. Mae'r synergedd rhwng y camau gweithredu a ffefrir yn amlygu'r themâu cryf hyn yn Rhydaman gyda negeseuon cryf ynglŷn â chanolbwyntiau cymunedol i ddal gwasanaethau wedi'u cydleoli er mwyn gwella hygyrchedd ac integreiddio.

Yng Nghaerfyrddin, roedd pwyslais clir o'r trafodaethau ar yr angen i sicrhau llywodraethu ac atebolrwydd cryf, a gwnaed sylwadau allweddol am yr angen i sicrhau ymgysylltu a chyfathrebu parhaus ynglŷn â sut y caiff y gwaith hwn ei symud ymlaen.

Gweithdy i Gynghorau Tref a Chymuned

Ar 4ydd Gorffennaf 2017, cynhaliwyd gweithdy min nos i gynghorwyr, clercod a swyddogion datblygu y saith Cyngor Tref a Chymuned yn Sir Gâr sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Daeth 29 cynrychiolydd i'r digwyddiad. Fel a wnaed yn y digwyddiadau ymgysylltu ehangach, gwahoddwyd y rhai oedd yn cymryd ran i ddweud sut y dylai'r cynllun gael ei weithredu; pa gamau sy'n ofynnol i wireddu'r pedwar amcan llesiant. Y gwahaniaeth rhwng y sesiwn hwn a'r gweithdai ehangach oedd na ofynnwyd am syniadau oedd yn targedu'r tymor byr, canolig neu hir; yn hytrach, 'prosiect' oedden nhw y gellid ei roi ar waith er mwyn gwireddu'r amcan yn llwyddiannus. Ar ôl llawer o drafod a gwyntyllu syniadau, gwahoddodd y gweithdy y cyfranogwyr i bleidleisio ar y cam gweithredu roedden nhw'n ei ffafrio ar gyfer pob amcan. Mae'r un a gafodd y mwyaf o bleidleisiau wedi'i gynnwys (neu ddau lle cawsant yr un nifer o bleidleisiau) yn y ddogfen hon ond i gael disgrifiad llawn o'r gweithdy i Gynghorau Tref a Chymuned, ewch i Atodiad 3.

Fel a oedd yn wir yn y gweithdai mwy, mae'n bwysig nodi ei bod yn anodd datblygu camau gweithredu a oedd yn berthnasol i'r BGC ac yn ddichonadwy. Gwnaed rhai awgrymiadau rhagorol, ond nid oeddent bob amser yn addas i'r Cynllun Llesiant. Er enghraifft, y cam a awgrymwyd a gâi ei ffafrio o ran yr amcan Cysylltiadau Cadarn oedd hyrwyddo ysgolion dwyieithog. Er ei fod yn argymhelliad dilys, nid yw'n agenda i'r BGC, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y tabl crynhoi.

Gweithdy Cynghorau Tref a Chymuned	**Camau Gweithredu a Ffefrir**
Arferion Iach	Cyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol e.e. gwirfoddolwyr '*incredible edibles*', credydau amser, atgyfeiriadau ymarfer corff
Ymyrraeth Gynnar	Ehangu cynlluniau gwarchod cymdogaeth – cymunedau gofalgar
Cysylltiadau Cadarn	Gwneud defnydd mwy effeithiol o gerbydau gwasanaethau cyhoeddus a cherbydau dan gontract e.e. bysiau ysgol ac eraill, i fynd i'r afael ag anawsterau trafnidiaeth.
Pobl a Llefydd Llewyrchus	Cymunedau'n cynhyrchu eu hynni eu hunain ac yn gwerthu'r hyn sydd dros ben. Dod â grwpiau buddiant lleol a gwirfoddolwyr ynghyd. Gallai tai Cyngor gael paneli solar % i gyllid cynghorau cymuned lleol i bartneriaid a Chyfleoedd dysgu i'r cenedlaethau ar y cyd

Gweithdai i Grwpiau Buddiannau Arbennig

Gweithdai Plant a Phobl Ifanc

Cynhaliwyd gweithdy gyda 30 o blant a phobl ifanc yn Ysgol Glan y Mor. Fel y gweithdy i gynghorau tref a chymuned, cafodd yr awgrymiadau eu casglu heb ffrâm amser benodol. Gwahoddwyd y plant a'r bobl ifanc i argymell camau gweithredu ar gyfer un yn unig o'r amcanion; fodd bynnag, roedd

fformat yr ymateb yr un fath fel bod modd ymgynghori sylwadau'r plant a'r bobl ifanc yn y cynllun terfynol. Drwyddi draw, awgrymwyd llawer mwy o gamau gweithredu ar gyfer rhai amcanion nag eraill.

Cwblhawyd y tablau crynhoi drwy ddadansoddi'r tueddiadau yn y camau a awgrymwyd. I weld set lawn o'r camau a awgrymwyd, ewch i Atodiad 4.

Plant a Phobl Ifanc	**Themâu'n Codi**
Arferion Iach	• Hyrwyddo bwyd iach e.e. darparu ffrwythau am ddim mewn ysgolion • Mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol e.e. rasys hwyl cymunedol, llwybrau cerdded/beicio • Defnyddio technoleg i gefnogi newid/ymwybyddiaeth iechyd
Ymyrraeth Gynnar	• Un pwynt cyswllt i Wasanaethau Cymorth. Gellid gwneud hyn ar ap neu drwy ganolfan go-iawn • Mwy o wasanaethau cymorth ar gael ei bawb a hyrwyddo'r gwasanaethau presennol • Mynediad 24/7 at wasanaethau cymorth
Cysylltiadau Cadarn	• Trefnu a hyrwyddo mwy o ddigwyddiadau cymunedol
Pobl a Llefydd Llewyrchus	• Creu mwy o swyddi a phrentisiaethau i bobl ifanc • Cyfleoedd i bobl ifanc weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus

Grwpiau Eraill

Cynhaliwyd sesiynau gweithdy hefyd gyda rhai grwpiau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau Canolfan Coleshill (canolfan i Oedolion ag Anghenion Dysgu) a Chymdeithas Pobl Fyddar Llanelli.

Cymerodd cyfanswm o 17 ar draws y ddau grŵp ran yn y sesiynau gan gynhyrchu amryw o syniadau o ran camau gweithredu. Mae'r tueddiadau a ddaeth i'r amlwg wedi'u nodi isod.

Grwpiau Eraill	Themâu'n Codi
Arferion Iach	Diffyg cyfleoedd y tu hwnt i'r hyn a gynigir gan y Ganolfan. Diffyg adnoddau o fewn y ddarpariaeth yn golygu nad yw pobl yn gallu cyrchu at yr hyn sydd yna – posibiliadau i wirfoddolwyr helpu i alluogi mynediad. Pwysigrwydd "gwersi bywyd" e.e. cadw trefn ar arian a bwyta'n iach. Meddygfeydd/ysbytai â gwell adnoddau ar gyfer pobl fyddar (dolenni clyw ac arwyddion trydan coch).
Ymyrraeth Gynnar	Cefnogi dyheadau pobl waeth beth fo'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd. Gwell cydnabyddiaeth o effaith byddardod ar bobl e.e. cyfleoedd swyddi, risg uwch o dlodi.
Cysylltiadau Cadarn	Cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliadau ysgol/coleg mewn canolfannau cymuned yn helpu i ymestyn yr amrywiaeth gweithgareddau y gellid eu cynnig. Meithrin cyfathrebu effeithiol rhwng unigolion/grwpiau byddar ac asiantaethau'r BGC. Hyfforddiant gorfodol ymwybyddiaeth o fyddardod i holl staff y BGC.
Pobl a Llefydd Llewyrchus	Cyflogaeth gynhwysol, gyda chymorth, yn sicrhau bod cyfle cyfartal i bobl o bob oed a gallu. Gwasanaethau negeseuon testun i holl wasanaethau'r BGC. Mwy o gymorth ariannol a hyfforddiant ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth i bobl fyddar.

Arolwg Ar-lein

Agwedd olaf y cyfnod ymgysylltu oedd arolwg ar-lein lle gwahoddwyd ymatebwyr i wneud sylwadau ar y camau gweithredu isod i wireddu'r amcanion, mewn fformat tebyg iawn i fformat y gweithdai uniongyrchol. Golygai hyn fod modd casglu'r holl ddata ynghyd i'w gyfuno. Cafwyd 8 ymateb i'r arolwg ar-lein. Ceir adroddiad manylach ar yr ymatebion i'r arolwg yn Atodiad 5.

Arolwg Ar-lein	Themâu'n Codi
Arferion Iach	• Annog defnydd cyfrifol a chynaliadwy o'r amgylchedd naturiol, gan gynnal ymrwymiad cryf i warchod gofod naturiol. • Sicrhau bod sefydliadau'n cydnabod buddion lles meddyliol/ corfforol da a'r amgylchedd naturiol, a'r cysylltiadau rhyngddynt. • Gwella gwerth maethol prydau ysgol. • Defnyddio ymyriadau diwylliannol i wella lles meddyliol/corfforol. • Cynnal archwiliadau cyson (i'w cyflawni gan gyrff allanol) i sicrhau bod cydbwysedd teg yn cael ei gynnal rhwng defnydd cyfrifol o'r amgylchedd naturiol a'i gadwraeth.
Ymyrraeth Gynnar	• Presgripsiynu cymdeithasol – cyflwyno cynlluniau cerdded i'r rhai y mae risg iddynt ddioddef clefyd y galon, diabetes etc, sy'n golygu bod pobl yn mynd i sesiynau cymdeithasol/egnïol yn rheolaidd. • Mwy o gefnogaeth i fanciau bwyd. • Datblygu gwasanaethau iechyd yn y gymuned, gan alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. • Ymrwymiad i ymchwil ar draws y sector cyhoeddus yn sail i ddatblygu a chynllunio gwasanaethau. • Cyd-wasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cael ei reoli'n iawn a'i ariannu'n gynaliadwy.
Cysylltiadau Cadarn	• Bod yn ymwybodol o'r tueddiadau diweddaraf o ran teithio cynaliadwy a sicrhau bod digon o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan yn y sir. • Llwybrau cerdded, beicio/marchogaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus integredig. • Cyflwyno dull gweithredu'r BGC sydd wedi'i seilio ar rwydwaith thematig o fewn (nid dim ond ar draws) holl sefydliadau'r sector cyhoeddus. • Ymdeimlad cryfach o gymuned a pherthyn, yn enwedig i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.
Pobl a Llefydd Llewyrchus	• Gostwng ardrethi busnes a denu busnesau i gychwyn ac arloesi i greu cymunedau llewyrchus. • Helpu busnesau lleol gyda'u marchnata a'u hysbysebu. • Cefnogi rhaglenni trawsnewid Digidol a seilwaith, e.e. dechrau adnewyddu cyfarpar TG (sydd wedi'i ddefnyddio) gyda Linux a'i roi yn nwylo pobl sydd mewn angen.

Dadansoddiad o'r Gwaith Pennu Camau Gweithredu

Mae'r cynrychiolwyr ar Grŵp Cyflenwi Gweithredol y BGC yn dod o bob rhan o aelodaeth y BGC. Yn y sesiwn dadansoddi, cafodd y canfyddiadau o'r holl ddulliau ymgysylltu eu hystyried a'u gwerthuso. Mae geiriad terfynol y camau gweithredu tymor byr, canolig a hir ar gyfer y cynllun cyflenwi un ai wedi cael eu dewis o'r awgrymiadau a gafwyd drwy'r gweithdai neu'r arolwg neu wedi

cael eu haileirio i gyd-fynd â'r teimladau a fynegwyd, o dan unrhyw un neu bob un o'r amcanion, ar y thema neilltuol honno.

Atodiad 1 – Sesiynau Grŵp Thematig

	Arferion Iach **Bod gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd**
Tymor Byr	• Monitro aer mewn ysgolion • Treialu Parth Llesiant e.e. yn ne Llanelli, Morfa etc lle gellir cyflenwi gwasanaethau ar lefel y gymuned • Sefydlu 'Tîm Ymddygiad Strategol' a dull gweithredu • Mapio Asedau ar lefel y gymuned
Tymor Canolig	• Datblygu rhaglen benodol i ysgolion yn ymwneud ag Arferion Iach/Cadernid Unigol i ymdopi â sefyllfaoedd • Negeseuon iechyd cyson ar draws y gwasanaethau cyhoeddus/un brand, neges, iaith • Y BGC i lobïo am newid ar draws y sir e.e. rhoi'r gorau i hysbysebu cynnyrch afiach • Clymu negeseuon y BGC i mewn i addysg/Bagloriaeth Cymru • Newid: y Cynnig Lleiaf gennym i'n gilydd – pob bod dynol, pob asiantaeth, pob preswylydd
Tymor Hir	• Cynnwys y Sector Preifat mewn newid ar draws y sir

	Ymyrraeth Gynnar **Bod pobl yn cael yr help priodol ar yr amser iawn; yn ôl y gofyn**
Tymor Byr	• Cymorth Cyfannol: y 'Cynnig Lleiaf' – Model wedi'i seilio ar asedau • Harneisio technoleg i rannu gwybodaeth a chreu cysylltiadau ar gyfer pobl ac â phobl • Cymorth lefel isel a Rhwydwaith ymyrraeth gynnar *trothwyon cyfeirio* • Fforwm ar gyfer cyflenwi camau gweithredu ataliol – caniatâd i weithio'n wahanol • Mapio meini prawf sefydliadol ac ariannu ar draws cymunedau i greu dewislen fwy amrywiol • Datblygu rhaglen hyfforddi i'r holl staff ledled y BGC er mwyn rhoi cymorth (Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, SAVE, SWAIL) • Sefydlu Canolfan Gynghori Gymunedol yn y siop/dafarn/ rhywle canolog • Rhannu astudiaethau achos unigol er mwyn deall blaenoriaethau allweddol

Tymor Canolig	• Rôl i Gynghorau Tref a Chymuned • Rhwng cenedlaethau – pobl yn siarad â phobl • Canolbwyntiau Cymuned lle gall pobl fynd ag unrhyw angen a chysylltu gwasanaethau â'i gilydd • Sefydlu Bugeiliaid Stryd/Eiriolwyr Cymunedol sy'n sylwi ac yn hidio, yn cyfeirio ymlaen, yn sefydlu ffyrdd o ymgysylltu
Tymor Hir	• Adeiladau ac asedau eraill i gael eu defnyddio ar sail gymunedol

Cysylltiadau Cadarn
Pobl, llefydd a sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n gadarn, sy'n gallu addasu i newid

Tymor Byr	• Rhwydwaith Arloesi – yn cysylltu cymunedau a'u helpu i addasu i newid (yn cysylltu ag eraill yn yr adran hon) • *Revisit the Apples* – allwn ni gyflawni rhywbeth a godwyd yno i ddangos ymrwymiad – dangos y gallu i ymateb • Enwi'r Cysylltwyr Cymunedol (yn cysylltu â'r pwynt nesaf) • Partneriaid y BGC i ddatblygu dull ar y cyd o ymgysylltu â'r cyhoedd • Gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned (sy'n ddarostyngedig i'r ddeddf) i gyflawni'r gweithredu yn y gymuned • Rhif Ffôn Brysbennu Sir Gâr a Phlatfform Ar-lein sy'n gallu arallgyfeirio/cyfeirio ymlaen at Iechyd, yr heddlu, cyngor etc
Tymor Canolig	• Cefnogi cymunedau i gydweithio a magu'r cydnerthedd i ofalu amdanynt eu hunain • Cael mecanwaith er mwyn i bobl 'Ddweud Wrthym Nawr'/proses i fonitro llesiant yn barhaus
Tymor Hir	• Hyfforddiant Cydnerthedd i bob cymuned i ddatblygu'r sgiliau i gyllidebu/rheoli/cyfarwyddo newid

Pobl a Llefydd Llewyrchus
Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a llefydd yn rhannau trefol a gwledig ein sir

Tymor Byr	• Gofal Iechyd Da: cychwyn da a diwedd da • Rhaglen Fentora Cyflogwyr (yr ysgol ac allan o waith) • Ffurflenni Gwirfoddoli, Gwaith Dinesig, Mentora • Gwasanaeth Dinesig – profiad gwaith i unigolion/ysgolion/ gwirfoddoli/dychwelyd i'r gwaith gyda holl bartneriaid y BGC (defnyddio model Hywel dda?) • Sir Gâr Hyderus – dathlu llwyddiant

	• Defnyddio mannau cyfarfod hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus/seilwaith gwyrdd • Annog natur a bywyd gwyllt mewn mannau gwag/lleiniau/ymylon • Cael pobl ifanc yn barod ar gyfer busnes: dod â diwydiant/addysg a phobl ifanc ynghyd • Tasglu arbenigol i annog busnesau i ddod i Sir Gâr – ffocws ar TGCh a'r cyfryngau efallai (e.e. yn sgil symudiad S4C) • Pwyntiau gwefru ar holl adeiladau partneriaid y BGC A buddsoddi mewn ceir trydan a cheir cronfa (cysylltiadau ag agenda prifford werdd LIC). Hefyd, annog beicio, cynlluniau rhannu car ymhlith holl bartneriaid y BGC
Tymor Canolig	• Rhannu hyfforddiant/gwaith datblygu'r gweithlu – yn cynnwys pobl sy'n ddi-waith • Yr Egin – bod yn ganolfan diwylliant – hyrwyddo Sir Gâr, dod â phobl yma o lefydd eraill i gael cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith (swyddi a ffordd o fyw). • Seilwaith gwyrdd ar gael sy'n mynd â phobl i'r mannau y mae angen iddynt eu cyrraedd. • Annog busnesau 'pop-up' mewn adeiladau gwag/digwyddiadau cymunedol 'pop-up' etc. Gall y BGC hwyluso hun (bod â phlatfform/adnoddau a rennir/clirio rhwystrau) (Gweithredu dichonadwy gan y BGC)
Tymor Hir	• Siopau a gwasanaethau cymunedol. Gall y BGC gefnogi perchenogaeth ac ymgysylltu • Rhesymoli gwasanaethau i bobl • Gwelliannau a datblygiadau addysgol (ble, i bwy?)

Atodiad 2 – Amserlen y Gweithdai

5 Gorffennaf 2017 **1:30 – 4:30pm** **Ystafell Lliedi, Canolfan Selwyn Samuel, Llanelli**	**12 Gorffennaf 2017** **1:30 – 4:30pm** **Clwb Bowls Dinefwr, Rhydaman**	**19 Gorffennaf 2017** **1:30 – 4:30pm** **Neuadd San Pedr, Caerfyrddin**

	Amser	**Adnoddau**
Cyrraedd – **10mun** • Amser i fynd i'r grwpiau (cod lliw)	13:30 – 13:40	Te a Choffi Ffrwythau etc
Sgwrs neu destun fideo gan Barry Liles	13:40 – 13:50	
Cyflwyniad – **10 mun** • Egluro'r gweithdy a'r canlyniadau a fwriedir • Ystyried yr Amcan ar eich bwrdd chi a thystiolaeth/ cyfiawnhad ategol • Chi yw'r arbenigwr ar yr amcan hwn?	13:50 – 14:00	Byrddau â chod lliw - amcan A3 laminedig - cyfiawnhad
Gweithgaredd Dychmygu a Gweithredu – Grŵp Arbenigol **60 mun** • Trafod y cwestiwn dychmygu • Ystyried rôl broffesiynol, profiad personol • Cynnal sesiwn gwyntyllu syniadau • Awgrymu Camau Gweithredu Tymor Byr, Canolig a Hir ar bapurau 'post-it' i'w rhoi ar y Daflen Waith Gweithredu	14:00 – 15:00	Dalen C Dychmygu a beiros cod lliw Nodiadau 'Post-it' Taflen Waith Gweithredu A2
Gweithgaredd Gweithredu – Pob Grŵp • Y grwpiau'n symud o amgylch y byrddau – **45 mun i gyd** • Yr hwylusydd yn aros yn yr un man a gweithio gyda phob grŵp newydd, yn rhoi trosolwg o'r syniadau sy'n cael eu trafod • Y grwpiau'n treulio 15 mun ar fyrddau'r 3 amcan arall yn datblygu'r syniadau ac yn <u>ychwanegu</u> SYNIADAU NEWYDD • Pob cyfranogwr yn nodi'r camau y mae'n eu ffafrio (3 i bob person am bob 'tymor')	15:00 – 15:45	Pob grŵp yn dod â'u beiros lliw eu hunain i nodi'r camau maen nhw'n eu ffafrio
Camau Gweithredu a Awgrymir – **15 mun** • Y Grŵp Arbenigol yn dychwelyd i ystyried cyfraniadau pawb • Y Grŵp Arbenigol yn dewis y prif gam gweithredu tymor Byr, Canolig a Hir	15:45 – 16:00	
Sesiwn Lawn – **30 mun** • Pob bwrdd (hwylusydd neu aelod o'r grŵp arbenigol) yn cyflwyno 3 syniad gweithredu o dan eu Hamcan nhw <u>yn fyr</u> • Diolch a chloi …	16:00 – 16:30	

Atodiad 3 – Y Gweithdai

Cyflwynir y ddogfen hon fel cofnod diduedd o'r tri digwyddiad i staff rheng flaen, rhanddeiliaid eraill, cynghorwyr a'r cyhoedd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2017 i helpu i ddatblygu'r Cynllun Llesiant Lleol

Roedd ffrwyth gwaith y gweithdai ar ffurf nodiadau 'post-it' wedi'u rhoi ar ddalennau a oedd yn dangos yr amcan, gyda thri lle wedi'u nodi ar gyfer camau gweithredu tymor byr, canolig a hir. Wrth i bobl symud o amgylch y byrddau, gofynnwyd iddynt ychwanegu sylwadau, yn cynnwys 'post-its' newydd os oeddent yn teimlo bod rhywbeth mawr ar goll, ac yna gofynnwyd iddynt bleidleisio o blaid y camau roedden nhw'n eu ffafrio. Crynhoir y canlyniadau isod fesul sesiwn.

Cynhyrchodd proses y gweithdai un cam gweithredu y cytunwyd arno fesul amcan a fesul ffrâm amser, ac mae'r rhain yn cael eu dangos â **phrint trwm** yn y tablau isod. Mae'r sylwadau ategol wedi'u trawsgrifio heb eu newid, fel yr oeddent ar y dalennau crynhoi, yn cynnwys rhai lle nad oedd y bwriad yn glir iawn ac eraill lle mynegwyd barn gymharol ddadleuol. Fodd bynnag, cafodd y camau gweithredu y bwriwyd ymlaen â nhw eu hystyried yng ngoleuni'r holl sylwadau ychwanegol a wnaed a'r pleidleisiau a fwriwyd a chytunodd y grwpiau arbenigol arnynt wedi iddynt ddychwelyd i'w bwrdd cartref.

Sesiwn 1 – Llanelli

	Arferion Iach **Bod gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd**
Tymor Byr	• Mynediad at wybodaeth dda, hawdd cael gafael arni – nid dim ond ar-lein • Cynllun Bancio Amser Sector Cyhoeddus/hyfforddiant ardystiedig • Gwasanaethau Atal – cydleoli i hyrwyddo arferion iach • Y sector cyhoeddus drwyddo draw (addysg/hwyl/ymgysylltu) • Datblygu trefn rhyddhau o wasanaethau ysbyty dan arweiniad y 3ydd sector • Treth siwgr • Ceginau cymunedol yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr • Dosbarthiadau addysg sector cyhoeddus i bob oed (a theithiau natur) • Y BGC yn gweithredu'n rhanbarthol • Holl staff y BGC i gael hyfforddiant iechyd meddwl • **Hyrwyddwyr cyfathrebu yn y sector cyhoeddus i gysylltu ar draws adrannau a gydag unigolion**
Tymor Canolig	• Gwaith atal gyda'r sector addysg i sefydlu arferion iach • Cynlluniau presgripsiynu cymdeithasol i hybu'r 5 ffordd tuag at lesiant • Rhagor o addysg gorfforol yn yr ysgol • Llywyr (*navigators*) sector cyhoeddus ar gyfer unigolion iddynt gael help i fynd drwy wasanaethau cyhoeddus • **Cynllun trafnidiaeth sector cyhoeddus**

Tymor Hir	• Partneriaid y BGC i ganolbwyntio ar rannu adnoddau llesiant ar gyfer Iechyd Galwedigaethol • Newid diwylliant – newid ymddygiad • **Cydweithredu ar draws y sector cyhoeddus – gwasanaeth integredig i gleientiaid**

Ymyrraeth Gynnar

Bod pobl yn cael yr help priodol ar yr amser iawn; yn ôl y gofyn

Tymor Byr	• Angen eglurder ynglŷn â'r prosesau i gyrchu at wasanaethau arbenigol a sut mae sefyllfaoedd yn dwysau • Codi ymwybyddiaeth – mwy o gymorth arbenigol llaw yn llaw â gwybodaeth enerig • Presgripsiynu cymdeithasol • Gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd mwy hygyrch mewn lleoliadau lleol yn y gymuned (tai hefyd) • Defnyddio eiriolwyr (gwasanaeth neu deulu/ffrind) i gael cymorth meddygol i bobl y mae angen hynny arnynt ond na wnânt ofyn • **Codi ymwybyddiaeth o'r holl wasanaethau sydd ar gael (cyhoeddus, 3ydd sector), gwell cyfeirio ymlaen**
Tymor Canolig	• Angen rhagor o adnoddau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc • Gwybodaeth/gwefan/siop i'r sir • **Rhagor o presgripsiynu cymdeithasol mewn gwasanaethau eraill ac ymestyn peilot Llanelli** • **Siop 1 stop, un pwynt cyswllt: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o ran gofal cymdeithasol ac iechyd (24 awr)**
Tymor Hir	• Presgripsiynu cymdeithasol prif ffrwd yn rhan o rôl swyddi • Cronni cyllidebau ymyrraeth gynnar gyffredinol i atal yr angen am wasanaeth arbenigol e.e. ymgyfeillio SWAIL • **Rhagor o wasanaethau eiriolaeth i Wybodaeth, Cyngor a Chymorth gyfeirio ymlaen atynt**

Cysylltiadau Cadarn

Pobl, llefydd a sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n gadarn, sy'n gallu addasu i newid

Tymor Byr	• Annog cynhwysiant cymdeithasol ac integreiddio drwy gynlluniau grŵp (hunangymorth a rhwydweithiau) • Caffi Iechyd Da yng Nghaerfyrddin / gwau a chlonc • Gwaith maes/gweithredu wedi'i gyd-drefnu i fynd i'r afael ag ynysu • Darparu cymhellion ynghlwm wrth gredydau amser • Cynlluniau bysiau post yn darparu gofal a chymorth • Mapio asedau

	• Gwella'r seilwaith trafnidiaeth yn y sir. Gwell cysylltiadau ar faterion trafnidiaeth, ymgynghori mwy tryloyw â chymunedau • Rhoi dewis wedi'i seilio ar wybodaeth i gymunedau – mae gwybodaeth yn allweddol • Ystyried rhagor o gyllidebau cyfun ar gyfer prosiectau peilot llai mewn cymunedau • **Gwella'r seilwaith TG i bob ardal yn y Sir – Band Eang i bawb!! Cyrff sector cyhoeddus yn cynnig wifi am ddim neu mewn canolbwyntiau cymunedol**
Tymor Canolig	• Nyrs yn y llyfrgell deithiol • Darparu cyfleoedd addysg i wella rhwydweithiau a sgiliau cymunedau • Deall y rhwystrau diwylliannol mewn cymunedau • Nodi'r adnoddau a'r arian sydd ar gael ar gyfer cynlluniau dan arweiniad y gymuned • **Gwneud yn fawr o adnoddau cyhoeddus sydd â chapasiti e.e. defnyddio Neuaddau Ysgol y tu allan i oriau**
Tymor Hir	• Cadw ysgolion gwledig ar agor • **Edrych ar ddulliau ataliol gyda phrosiectau tymor hwy**

	Pobl a Llefydd Llewyrchus **Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a llefydd yn rhannau trefol a gwledig ein sir**
Tymor Byr	• Datblygu canolbwyntiau gwaith/canolbwyntiau 'gwledig', rhannu cyfle a chyngor busnes • Darparu gwasanaethau iechyd mewn neuaddau cymuned/ gwasanaethau lleol • Datblygu sgiliau'n gyffredinol (coginio, gwnïo, DIY, TG) prentisiaethau/uwchsgilio • Dilyniant gyrfaol i wneud gofal cartref yn fwy deniadol fel gwaith • **Buddsoddiad gwledig enfawr mewn band eang – atebion arloesol i gymunedau unigol**
Tymor Canolig	• Trafnidiaeth werdd ddichonadwy/llwybrau beicio • Ailstrwythuro llywodraeth leol • 1 rhif i gyrchu at bob gwasanaeth • Darparu gwasanaethau lleol mwy integredig yn y gymuned, iechyd yn bwysig • Gwella ffyrdd amlasiantaethol o ddarparu gofal cartref – un ymweliad i sicrhau bod yr holl anghenion yn cael eu diwallu • **Cyfleoedd dysgu lleol yn diwallu anghenion sgiliau – pob oedran/dysgu parhaus i ymateb i dueddiadau'r dyfodol**
Tymor Hir	• **Darparu gwell trafnidiaeth gyhoeddus gymunedol, integredig, lle nad yw trafnidiaeth gyhoeddus brif ffrwd yn gynaliadwy e.e. rhannu ceir yn sefydliadau'r BGC**

Sesiwn 2 – Rhydaman

	Arferion Iach **Bod gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd**
Tymor Byr	• Gwneud pethau'n well! Gwell cynllunio a gwneud pethau ar y cyd – adnoddau'n crebachu. • Defnyddio clybiau sy'n bodoli'n barod a chanfod gwirfoddolwyr a wnaiff helpu i dynnu pobl allan i'r awyr agored • Cynlluniau/mentrau cydweithredol tyfu'ch cynnyrch eich hunain: darparu tir • Argaeledd cynnyrch lleol: potensial enfawr o ran arferion iach/twf economaidd/llai o filltiroedd bwyd • *Incredible edible* Sir Gâr: cael pob oedran i weithio gyda'i gilydd, trosglwyddo sgiliau, gwerthu cynnyrch lleol i'r gymuned leol • Arferion Iach yn y Gweithle: gwneud pobl yn fwy egnïol yn ystod oriau gwaith, creu lle i hyblygrwydd ac ymarfer corff yn y gwaith • Trafnidiaeth gymunedol/trafnidiaeth BGC/gwasanaeth cludwr, defnyddio cerbydau cyhoeddus pan nad ydynt yn cael eu defnyddio • **Y BGC i fapio cynlluniau presennol i weld beth sydd ar gael ar hyn o bryd, fel sail i'r Cynllun Llesiant. Mapio adeiladau cymunedol at ddefnydd gwasanaethau cyhoeddus ac er budd cymunedol. Mapio'r tir sydd ar gael i gynyddu'r defnydd ohono a chryfhau bioamrywiaeth**
